



Elusen Gofrestredig Rhif 507948

Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

CYMDEITHAS BOB OWEN

Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn
(Awst - Gorffennaf neu
Ionawr - Rhagfyr) i'w anfon i'r
Trysorydd

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Rhidian Griffiths
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion

Ysgrifennydd:
Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970) 623174

Trysorydd:
Miss Anne K. Till
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion

Golygydd:
Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA
ebost:tancastell@yahoo.com
(01678) 540652

Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:
Y Swyddogion
Mrs Mair Edwards
R. Geraint Gruffydd
Maredudd ap Huw
Dafydd Glyn Lloyd Hughes
E. Wyn James
Dafydd Jones
Huw Ceiriog Jones
Rheinalt Llwyd
Brynley Roberts
Deian ap Rhisiart

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a mân
hysbysebion i'r **GOLYGYDD**

ERBYN Medi 26

Neilltuo gofod hysbysebu i'r
TREFNYDD HYSBYSEBION

ERBYN Medi 29

Copi o'r hysbyseb i'r
GOLYGYDD
ERBYN Medi 26



Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD

Argraffwyr a Chyhoeddwyr

Ffôn: (01286) 674486

SIOP LYFRAU'R HEN BOST

45 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog
Ffôn: (01766) 831802

*Byddwn yn yr Eisteddfod
yn Meifod*

Edrychwn ymlaen at groesawu
cyfeillion hen a newydd

Golygyddol

O'r diwedd mae yna argoelion fod cell o Gymdeithas Bob Owen yn mynd i gael ei sefydlu ym Mhenllyn. Gobeithir sefydlu un ym mis Medi. Meirionnydd yw'r man cychwyn naturiol, mae'n siŵr. Dyma'r amser i gymunedau eraill wthio'r cwch i'r dŵr. Does dim rhaid cael llond neuadd. Gydag ewyllys, gall criw bach wneud gwrthiau yn lleol. Fel y dywedais droeon, mae diogelu hanes lleol yn holl bwysig i bawb ohonom ni. Dwi'n rhyfeddu faint sy'n cymryd diddordeb yn y maes hwn.

Cam newydd arall yn nhrefniadaeth dosbarthu'r *Casglwr* yw fod y Wasg yn cymryd gofal o'r postio. Golyga hyn y bydd y cylchgrawn yn eich dwylo ychydig ddyddiau ynghynt nag sy'n arferol.

Fe welwch fod yna ddau docyn raffl yn amgaeedig efo'r Casglwr eleni eto. Gobeithio y gwnewch eich gorau i'w gwerthu. Mae'r elw yn anghenrheidiol ar gyfer talu am babell ar faes y Brifwyl ac ar gyfer y tudalennau lliw. Diolch ichi eto am eich cefnogaeth. Gobeithio y caf sgwrs â rhai ohonoch ym Meifod.

Darlith Flynyddol Cymdeithas Bob Owen 2003

Darlithydd: J. Iorwerth Davies

Cadeirydd: Rhidian Griffiths

Teitl y ddarlith: **Mapiau cynnar Sir Drefaldwyn 1578 - 1800**

Man cyfarfod: **Y Stiwdio, ar faes y brifwyl**

Dyddiad ac amser: **Dydd Mawrth, 5ed Awst am 11 o'r gloch y bore.**

Cyfarfod Blynnyddol i ddilyn.

Atgofion am BOB OWEN

gan Mari Ellis


Pan oeddwn i'n blentyn yn Llanfrothen, fel Bob Owen, Morfa Glas y cyfeiriai pawb at y dyn bychan, bywiog a siaradai fel melin bupur. Gallaf ei gofio yn ein tŷ ni yn sôn wrth fy nhad fel y cafodd ei dwyllo gan y prynwyr hen lyfrau. Mae'r hanes yn y *Cofiant gan Dyfed Evans*. Yr oedd wedi galw i gael rhyw lyfrau gan fy nhad - *Cronicl bach*, S. R. os cofiaf yn iawn - rhoi llyfrau, nid eu gwerthu a fyddai personiaid plwyf - ac acw y bu am oriau a chael te hefo ni. Arferai feirniadu'r adrodd a'r cyfansoddiadau 'llynyddol' yn ein cyfarfodydd bach.

Gallaf ei gofio'n actio'r teiliwr yn nhrama J. Ellis Williams, *Rhamant a Rhyfel*, yn eistedd ar ben bwrdd â'i draed oddi tano yn esgus gwnïo, ac yn siarad yn ddi-baid. Dyna'r ddrama lwyfan gyntaf i mi ei gweld. Clywais ymhen blynnyddoedd fod ar yr awdur gwilydd o'r ddrama hon, a'i fod yn llosgi pob copi y medrai gael gafael arno. Ond i mi, 'radeg honno, yr oedd hi'n llawn hud a lledrith.

Yr oeddwn yn adnabod Nel cyn gwybod dim am ei charwriaeth â Bob. Morwyn y Wern oedd hi, a minnau'n mynd yno i nôl wyau neu ymenyn. Dynes a allai yrru gwaith drwy ei dwylo ydoedd. Pan briododd hi â Bob, cawsom ein danfon o'r ysgol gan J. Ellis Williams, ein prifathro, i gapel Siloam a'n gorchymun i gasglu blodau o'r cloddiau ar ein ffordd. Yna sefyll y tu allan i ddrws y capel i ddisgwyl y pâr priod. Dyna lle roedden ni, fel rhyw *guard of honour* gwerinol yn pledu'r ddau â'r blodau, er syndod iddynt hwy a phawb arall. Wedi hynny, Bob Owen Croesor ydoedd. Gallaf gofio clywed y merched hynaf yn y dosbarth gwnïo'n dweud mai Nanw oedd enw'r ferch fach, pan aned hi.

Wedi i 'mrawd a minnau fynd i'r Coleg ym Mangor, caem ambell gip ar Bob Owen, y dyn enwog erbyn hynny, yn dyfod i weld 'Doc Tom', y llyfrgellydd. Chwarae teg iddo, byddai yn ein cofio a'n cyfarch. Dalai i ymweld â Nhad yn achlysurol er mwyn archwilio cofrestri'r plwyf.

Mewn Eisteddfod Genedlaethol yn y pum degau y gwelais i Nel am y tro cyntaf ers diwrnod ei phriodas. Synnais weld dynes fechan, a minnau'n blentyn yn ei



Bob Owen a Llewellyn o'r Bryn.

gweld fel pladres o ddynes fawr!

Cofiaf gyd-deithio yn y trên â Bob Owen pan oedd fy mhlant yn fach, a minnau yn dweud wrthynt am gofio iddynt fod wedi cyd-deithio mewn trên hefo Bob Owen Croesor.

Rhoddion hyd at 21.2.03

Gwilym Williams, Abergele	£12.00
J. Williams, Llanfarian	£7.50
Eleri a Robin Gwyndaf, Caerdydd	£12.00
D. B. Francis, Caergybi	£2.00
V. H. Evans, Abertawe	£2.00
S. Williams	£2.00
Alwen Elystan Morgan, Dole	£2.50
Barbra Davies, Aberystwyth	£2.00
Trefor Edwards, Y Bala	£5.00
R. G. Williams, Wolverhampton	£2.50
E. W. Jones, Rhuthun	£2.50
H. Williams, Cricieth	£20.00
J. B. Jones, Caerdydd	£2.50
Charles Parry, Aberystwyth	£15.00
Gerald Morgan, Aberystwyth	£10.00
Bledydd Jones, Y Groeslon	£2.50
W. Goldsmith, Tyne & Wear	£10.00
B. F. Roberts, Aberystwyth	£40.00
R. Vale, Llanrhacadr	£2.50